Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 21ain Mai, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | CYFRIFON TERFYNOL 2018/19 - ALLDRO REFENIW | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 3 - 24 |
| 6 | RHAGLEN CYFALAF 2018/19 - ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (31 MAWRTH 2019) | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 25 - 32 |
| 7 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD AR GYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Ioan Thomas | Ffion Madog Evans | 33 - 40 |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 MAI 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Cyfrifon Terfynol 2018/19 – Alldro Refeniw

**Swyddog cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

**Gofynnir i'r Cabinet:**

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2018/19.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 15 |
| Plant a Theuluoedd | 100 |
| Addysg | 100 |
| Economi a Chymuned | 28 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 100 |
| Amgylchedd | (100) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | (59) |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | (76) |
| Cyllid | (59) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (61) |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (sydd wedi'u egluro yn **Atodiad 2)** –

- Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn cymorth ariannol un-tro o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.

- Yr Adran Addysg i dderbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k.

- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario mlaen gan yr Adran i £28k.

- Yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario mlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.

- Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol argymhellir cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.

- Ar gyllidebau Corfforaethol, trosglwyddo:

  - (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.
  - (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
  - (£738k) ar gynnal a chadw i gronfa cynnal a chadw.

- Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.

- Bydd gweddill tanwariant Corfforaethol (£173k) yn mynd i falansau cyffredinol y Cyngor.

1.4 Cymeradwyo’r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd a darpariaethau penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o’r cronfeydd a darpariaethau, sef:

- Cynaeafu (£3.931m) o gronfeydd a (£69k) o ddarpariaethau.
- Trosglwyddo £3m i’r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer Cynllun y Cyngor.
- Trosglwyddo £1m i Falansau Cyffredinol y Cyngor.
- Neilltuo £262k am gyfnod o flwyddyn o’r gronfa Cynorthwyo’r Strategaeth Ariannol i bontio’r ffynhonnell ariannu ymrwymiadau perthnasol i’r Gronfa Bensiwn.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Yn gyffredinol, er gwaethaf parhad y gofynion i gyflawni arbedion a’r pwysau sylweddol a welir ym maes gofal, **mae sefyllfa ariannol derfynol am 2018/19 yn cadarnhau rheolaeth ariannol effeithiol**. Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu ar rôl yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau, wedi’i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a’r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2018/19 er mwyn galluogi'r Adran Gyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol cyn 15 Mehefin**.

**3. Adrannau'r Cyngor**

3.1 **Ar y cyfan, cadarnhaf fod cyllidebau hanner yr adrannau wedi medru cadw o fewn eu cyllidebau eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol hanner yr adrannau yn tanwario, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2018/19. Ond nodaf y bu gwelliant yn sefyllfa ariannol yr **Adran Addysg** a'r **Adran Oedolion** erbyn diwedd y flwyddyn, yn dilyn derbyniad ac ail gyfeirio grantiau yn hwyr yn y flwyddyn. Gwelwyd hefyd gynnydd sylweddol yn lefel y tanwariant gan yr **Adran Amgylchedd**.

3.3 Bu cynnydd yn y tueddiad gorwariant ar wasanaethau gweithredol, lleoliadau, Ôl-16, ac Arbenigol / Derwen gan yr Adran **Plant a Theuluoedd,** ac yn y maes gwastraff gan yr Adran **Priffyrdd a Bwrdeistrefol**.

3.4 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Mae pedwar cais i'r Cabinet i ddileu diffyg adrannol, ac un adran gyda sefyllfa tanwariant sydd uwchlaw'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2018/19, ac felly gyda tanwariant i'w gynaeafu.

3.5 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2018/19 yn unig.

3.6 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gorwariant yn 2018/19, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2019/20, ac mae'r mwyafrif o'r materion hynny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2019/20 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

**4. Ysgolion**

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi aros yn £4m yn 2018/19. Er hynny, gwelwyd cynnydd o £1m ym malansau 42 ysgol ond gostyngiad o £1m mewn balansau 60 ysgol. Byddwn

yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn ‘Datganiad Adran 52’.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio’r ysgolion unigol i gyfiawnhau’r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i’r penaethiaid a chyrff llywodraethu’r ysgolion perthnasol i egluro’u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o’i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm diffygion ariannol ysgolion wedi lleihau o £306,394 (2 Cynradd, 3 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2018 i £207,106 (4 Cynradd, 2 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2019. Cadarnhaf y bydd yr Uned Gyllid berthnasol hefyd yn sicrhau y bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda nhw.

**5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol**

5.1 Am nifer o resymau bu tanwariant un-tro ar nifer o benawdau’r gyllideb Gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Fel yr argymellir yn rhan 1.3 uchod, bydd (£1,843k) o’r tanwariant net yma ar gael i liniaru gorwariant adrannau, (£1,308k) i’w ddefnyddio ar gyfer pwrpasau penodol a’r gweddill sef (£173k) i’w roi ym malansau cyffredinol y Cyngor.

5.2 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir uchod, trwy reolaeth effeithiol o’i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i gyllido ei gyfanswm gwariant yn unol â’r bwriad am 2018/19, sef defnyddio £1.51m o gronfeydd penodol y Cyngor i ariannu bidiau un-tro 2018/19 a pheidio gwneud unrhyw ddefnydd o falansau’r Cyngor i fantoli cyllideb 2018/19 (yn unol â’r Strategaeth Ariannol cymeradwyodd y Cyngor ar 8 Mawrth 2018).

5.3 Oherwydd bod gorwariant rhai adrannau yn 2018/19 wedi cael ei fantoli o danwariant yn 2018/19 ac hefyd gan fod cyllideb 2019/20 wedi ei osod heb orfod defnyddio’r Gronfa Cynorthwyo’r Strategaeth Ariannol, mae cyfle felly i ryddhau arian o’r gronfa honno ar gyfer cyfarch blaenoriaethau’r Cyngor.

5.4 Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd a darpariaethau penodol y Cyngor gan y Pennaeth Cyllid unwaith eto wrth gau’r cyfrifon eleni, yn unol â’r polisi a gymeradwywyd bedair blynedd yn ôl. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynaeafu £4.262m o adnoddau, fel amlinellir yn Atodiad 3.

5.5 Mae’r £3.0m i’w neilltuo ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor, £1.0m i’w symud i falansau cyffredinol y Cyngor a £262k i’w ddefnyddio am gyfnod o flwyddyn i bontio’r ffynhonnell ariannu ymrwymiadau perthnasol i’r Gronfa Bensiwn.

## 6. Camau nesaf ac amserlen

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Chod Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2018/19 y Cyngor cyn 15 Mehefin. Mae 2018/19 yn flwyddyn drosiannol gyda chwtogiad yn yr amserlen, gyda'r dyddiad statudol yn 15 Mehefin yn hytrach na 30 Mehefin fel mewn blynyddoedd blaenorol, gyda chwtogiad pellach i 31 Mai o 2020/21 ymlaen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses i gwblhau'r gwaith yn gynt.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant adrannau unigol, a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2018/19. Byddwn yn ystyried y wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

6.4 Bydd yr Adran Gyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2018/19 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid cyn y dyddiad statudol o 15 Mehefin.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

## Cyfrifon Terfynol 2018/19 Alldro Refeniw - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19 £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2018/19 £ '000 | *Amcan Sefyllfa Diwedd Tachwedd £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 50,949 | 15 | 0 | 0 | 15 | *29* |
| **Plant a Theuluoedd** | 14,088 | 1,644 | (1,544) | 0 | 100 | *1,333* |
| **Addysg** | 83,326 | 116 | (16) | 0 | 100 | *741* |
| **Economi a Chymuned** | 4,079 | 185 | (157) | 0 | 28 | *187* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 23,851 | 618 | (518) | 0 | 100 | *589* |
| **Amgylchedd** | 5,127 | (492) | 392 | 0 | (100) | *(169)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 196 | (59) | 0 | 0 | (59) | *(11)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 1,817 | (76) | 0 | 0 | (76) | *(93)* |
| **Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** | 5,892 | (59) | 0 | 0 | (59) | *(53)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 7,851 | (61) | 0 | 0 | (61) | *(59)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn unig)* | * | (3,324) | 1,843 | 1,481 | 0 | *(47)* |
| **Cyfansymiau (net)** | 197,176 | (1,493) | 0 | 1,481 | (12) | *2,447* |

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 11,408 | 10,868 | (540) | 0 | (540) | (306) |
| Gofal Cartref | 6,241 | 5,931 | (310) | 0 | (310) | (318) |
| Eraill | 1,821 | 1,902 | 81 | 0 | 81 | 25 |
| | 19,470 | 18,701 | (769) | 0 | (769) | (599) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,296 | 2,079 | (217) | 0 | (217) | (210) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 16,812 | 16,571 | (241) | 0 | (241) | (193) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,443 | 3,413 | (30) | 0 | (30) | 57 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 2,937 | 2,939 | 2 | 0 | 2 | 40 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **44,958** | **43,703** | **(1,255)** | **0** | **(1,255)** | **(905)** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (277) | (106) | 171 | 0 | 171 | 274 |
| Gofal Dydd | (91) | 63 | 154 | 0 | 154 | 122 |
| Gofal Cymunedol | 469 | 1,033 | 564 | 0 | 564 | 552 |
| Eraill | (14) | 48 | 62 | 0 | 62 | 75 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **87** | **1,038** | **951** | **0** | **951** | **1,023** |

| CYFRFION TERFYNOL 2018/19 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,844 | 1,933 | 89 | 0 | 89 | 138 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 4,060 | 4,290 | 230 | 0 | 230 | 230 |
| Defnydd o gronfa benodol | | 0 | 0 | 0 | 0 | (457) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **5,904** | **6,223** | **319** | **0** | **319** | **(89)** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,949** | **50,964** | **15** | **0** | **15** | **29** |

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - derbyniad grant hwyr a chynnydd yn yr incwm preswyl a nyrsio yn dilyn asesiadau a chynnydd yn y niferoedd. Lleihad yn y galw am becynnau gofal cartref yn ystod y flwyddyn.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - y tueddiad o leihad yn y nifer pecynnau gofal cartref a phreswyl a nyrsio yn parhau.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - tanwariant ar breswyl a nyrsio a llety cefnogol yn cael ei leihau gan orwariant ar wasanaethau dydd, cynlluniau cefnogol a gweithwyr maes.

**Gwasanaethau Darparu** - ail gyfeirio grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleddfu gorwariant yn rhannol. Costau staffio ychwanegol sydd bennaf gyfrifol am y gorwariant gyda rhai o'r rhesymau yn cynnwys cartrefi wedi bod mewn mesurau arbennig, argymhellion gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a phenodi uwchlaw'r gyllideb. Costau yn uwch na'r incwm sydd yn cael ei ad-ennill ar Ofal Cymunedol.

**Gwasanaethau Tai** - pwysau cynyddol ar lety dros dro i'r digartref a llithriad mewn gwireddu cynllun arbedion, ond derbyniad grantiau ar ddiwedd y flwyddyn ac incwm uwch yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - derbyniad incwm a swyddi gwag yn lleihau effaith y llithriad mewn gwireddu gwerth £372k o gynlluniau arbedion o 2017/18.

Gan fod sefyllfa yr adran yn well na'r hyn oedd wedi ei ragweld, yn groes i'r bwriad gwreiddiol does dim angen gwneud defnydd o'r cyllid o £457k, sydd gyfwerth â grant cefnogi gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniwyd yn 2017/18 i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant.

Oherwydd lefel y gorwariant gan y gwasanaeth Darparu, mae'r i'r Aelod Cabinet Oedolion a'r Pennaeth Adran yn edrych i wraidd y mater er mwyn lleihau'r gorwariant.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 609 | 589 | (20) | 0 | (20) | (22) |
| Gweithredol | 2,059 | 2,370 | 311 | 0 | 311 | 273 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 1,587 | 2,704 | 1,117 | 0 | 1,117 | 990 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,009 | 966 | (43) | 0 | (43) | (2) |
| Maethu Mewnol | 1,701 | 1,977 | 276 | 0 | 276 | 256 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,594 | 1,757 | 163 | 0 | 163 | 139 |
| | 5,891 | 7,404 | 1,513 | 0 | 1,513 | 1,383 |
| Ôl-16 | 998 | 1,327 | 329 | 0 | 329 | 175 |
| Arbenigol/Derwen | 1,682 | 2,010 | 328 | 0 | 328 | 242 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 239 | 195 | (44) | 0 | (44) | (44) |
| Blynyddoedd Cynnar | 155 | 118 | (37) | 0 | (37) | 5 |
| Ieuenctid | 871 | 711 | (160) | 0 | (160) | (179) |
| Eraill | 1,584 | 1,560 | (24) | 0 | (24) | 52 |
| Derbyniad Grant 2018/19 | | (552) | (552) | 0 | (552) | (552) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 | | | 0 | (1,544) | (1,544) | 0 |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **14,088** | **15,732** | **1,644** | **(1,544)** | **100** | **1,333** |

## Plant a Theuluoedd

**Gweithredol** - y tueddiad yn parhau ers 2017/18 gyda chostau staff uwchlaw lefel y gyllideb ynghyd â chynnydd yn y nifer o blant mewn gofal ond ddim mewn lleoliadau drytach, mae'r maes wedi derbyn adnodd ychwanegol o £100k ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Lleoliadau** - pedwar achos lleoliad all-sirol newydd, gyda chynnydd yn nifer y pecynnau ac yng nghyfartaledd cost, bu hefyd gwtogiad yng nghyfraniadau Iechyd. Gorwariant cynyddol yn maethu mewnol, ar y cynllun 'Aros Ymlaen' a gwasanaethau cefnogol. Mae adolygiad o'r ymrwymiadau all-sirol wedi ei gynnal sydd wedi amlygu newid i'r math o achosion dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly i'r costau cysylltiedig. Bydd y maes yn destun adroddiad gan yr Adran Plant.

**Ôl-16** - achosion wedi trosglwyddo o leoliadau all-sirol yn cyfrannu at y gorwariant, gyda dau becyn costus yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gost.

**Arbenigol/Derwen** – cynnydd pellach yn y gorwariant i £328k, £212k ohono ar gynlluniau cefnogol yn dilyn cynnydd yn y galw am wasanaeth ac am gefnogaeth arbenigol a £95k o ganlyniad i nifer o ffactorau gan Uned Hafan y Sêr.

**Ieuenctid** – cyfnod trosiannol o ddarparu'r gwasanaeth ieuenctid gydag arbedion wedi cael eu gwireddu ymlaen llaw.

Nodir gorwariant cynyddol ar nifer o benawdau'r gyllideb ers yr adolygiad diwethaf, sydd wedi arwain at orwariant gros o £2.2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn Rhagfyr, bu i'r Cyngor dderbyn grant o £552k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, oherwydd sefyllfa ariannol yr Adran Plant, mae'n briodol fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i geisio lleihau'r gorwariant gros o £2.2m i £1.6m.

O ystyried lefel gorwariant yr Adran, yn unol â phenderfyniad Cabinet 22 Ionawr 2019, mi fydd y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cyfarfod gyda'r Aelod Cabinet a Phennaeth yr Adran Plant a Theuluoedd i roi sylw i faterion ariannol yr adran.

**Argymhellir** fod yr Adran Plant a Theuluoedd yn derbyn cymorth ariannol un-tro rhannol o £1,544k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 72,430 | 72,430 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (341) | (656) | (315) | 0 | (315) | (140) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 4,606 | 4,971 | 365 | 0 | 365 | 447 |
| Gwasanaeth Atodol | 500 | 543 | 43 | 0 | 43 | 204 |
| Eraill | (133) | (253) | (120) | 0 | (120) | (10) |
| | 4,973 | 5,261 | 288 | 0 | 288 | 641 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,124 | 2,147 | 23 | 0 | 23 | 47 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,140 | 4,260 | 120 | 0 | 120 | 193 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 | | | | (16) | (16) | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **83,326** | **83,442** | **116** | **(16)** | **100** | **741** |

## Addysg

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cynnydd yn y tanwariant yn dilyn derbyniad grant a chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i ail-gyfeirio grant arall ar ddiwedd y flwyddyn. Trosiant staff a lleihad mewn costau hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa ffafriol.

**Cludiant** - Gorwariant o £365k, gyda Bysus Ysgol yn gorwario £196k, Tacsis £170k a thanwariant o (£1k) ar Incwm Cludiant Ôl-16. Gostyngiad o (£82k) yn y tueddiad gorwariant gyda lleihad yn y gwariant ar dacsis ysgolion sydd bennaf gyfrifol am y symudiad ers yr adolygiad diwethaf. Cynnydd yn y gorwariant ar gludiant bysus ysgol oherwydd addasiadau ac ychwanegiadau i gytundebau.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Dyrannwyd adnodd ychwanegol ar gyfer y maes yma yn 2019/20, sydd yn ddatrysiad rhannol ond mae'r angen am waith pellach yn parhau. Ymhellach, mae'r Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn bwriadu gwneud gwaith ar y cyd i'r dyfodol i fanteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - derbyniad grant hwyr yn helpu i leddfu'r diffyg incwm prydau ysgol, elfen gofal o'r cynllun brecwast a'r gorwariant ar faterion staffio a salwch yn Arlwyaeth, Glanhau a Gofalu am ysgolion.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alwadau ar nifer o gyllidebau amrywiol gan gynnwys cyllideb o £54k yn cael ei ryddhau yn dilyn i gytundeb lefel gwasanaeth rhwng awdurdodau Cymru â'r Bwrdd Arholi CBAC ddod i ben.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - ail gyfeirio defnydd o grant ar ddiwedd y flwyddyn yn lleihau effaith y gorwariant yn ystod y cyfnod trosiannol i'r gyfundrefn newydd gan yr Unedau Cyn Ysgol ABC. Y gorwariant sydd yn ymwneud ag amgylchiadau mewn un ganolfan benodol ac ar Addysg heblaw mewn Ysgol yn cael ei leihau gan danwariant gan yr unedau anghenion dysgu ychwanegol ac ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Argymhellir** fod yr Adran Addysg yn derbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £16k gan gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i £100k, i'w cynorthwyo i symud ymlaen i wynebu her 2019/20.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 335 | 334 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Dysgu Cymunedol | 1,676 | 1,591 | (85) | 0 | (85) | (44) |
| Twristiaeth a Threftadaeth | 1,071 | 1,084 | 13 | 0 | 13 | 23 |
| Economi a Chymuned | 131 | 126 | (5) | 0 | (5) | 6 |
| Cymunedau'n Iach | 866 | 1,129 | 263 | 0 | 263 | 202 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 | | | | (157) | (157) | 0 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **4,079** | **4,264** | **185** | **(157)** | **28** | **187** |



## Economi a Chymuned

**Dysgu Cymunedol** - swyddi gwag ac arbedion wedi eu gwireddu yn fuan yn gyfrifol am y tanwariant.

**Twristiaeth a Threftadaeth** - lleihad yn y gorwariant a adroddir sydd yn gyfuniad o orwariant o £72k gan Storiel ar gostau staff a diffyg incwm, ond tanwariant ar y Celfyddydau ac Archifau yn cynorthwyo'r sefyllfa ariannol.

**Economi a Chymuned** - Hafan, Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon yn gorwario ond yn cael ei leddfu gan danwariant ar barciau gwledig a drwy ragori ar incwm traethau.

**Cymunedau'n Iach** - £157k o'r gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni 'Byw'n Iach' i redeg y cyfleusterau hamdden. Gorwariant ar gostau staff a gostyngiad incwm canolfannau hamdden hefyd yn cyfrannu at y gorwariant o £263k.

**Argymhellir** digolledu'r Adran Economi a Chymuned £157k, sef swm y gorwariant o ganlyniad i lithriad yn yr amserlen sefydlu cwmni Byw'n Iach i redeg y cyfleusterau hamdden, sydd felly yn cyfyngu lefel y gorwariant i'w gario mlaen gan yr Adran i £28k.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd) | | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19 | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,274 | 9,368 | 94 | 0 | 94 | 39 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 498 | 493 | (5) | 0 | (5) | (1) |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 10,491 | 10,994 | 503 | 0 | 503 | 470 |
| | Eraill | 3,588 | 3,614 | 26 | 0 | 26 | 81 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 | | | | | (518) | (518) | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **23,851** | **24,469** | **618** | **(518)** | **100** | **589** |

**Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Gwasanaethau Priffyrdd** - gostyngiad yn yr incwm ar gytundebau allanol ar waith ffyrdd a goleuo. Er bod y gaeaf wedi bod yn gymharol fwyn, bu gorwariant o ganlyniad i nifer o stormydd.

**Gwastraff** - cynnydd yn y gorwariant i £503k, gyda gorwariant ar gostau staffio a chostau cysylltiedig â salwch. Gwelwyd cynnydd mewn costau gweithredol a thrafnidiaeth, cynnal a chadw'r fflyd ac ymdrin a chludo deunyddiau ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu, oedd fod i ddod i rym yn Nhachwedd 2018 yn Nwyfor ac yna Arfon a Meirionnydd yn 2019/20, bu llithriad yn yr amserlen gweithredu i 2019/20.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - er fod costau rhedeg a hurio cerbydau yn parhau i fod yn broblemus, incwm uwch ar amlosgiadau a chladdedigaethau a thanwariant ar gyllidebau amrywiol yn lleihau lefel y gorwariant erbyn diwedd y flwyddyn.

Er fod rhai camau eisioes wedi eu cymryd ar yr ochr Gwastraff yn ystod y flwyddyn i sicrhau mesurau i weithredu o fewn y gyllideb, nodir bu oedi gyda'r gweithrediad eleni.

**Argymhellir** fod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn derbyn cymorth ariannol rhannol un-tro o £518k i gyfyngu lefel y gorwariant sydd i'w gario ymlaen gan yr Adran i 2019/20 i £100k, i'w cynorthwyo i wynebu her 2019/20.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 518 | 468 | (50) | 0 | (50) | (81) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 73 | (72) | (145) | 0 | (145) | 82 |
| Eraill | 192 | 174 | (18) | 0 | (18) | (17) |
| | 265 | 102 | (163) | 0 | (163) | 65 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 749 | 493 | (256) | 0 | (256) | (128) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,965) | (1,974) | (9) | 0 | (9) | (19) |
| Cludiant Integredig | 1,703 | 1,794 | 91 | 0 | 91 | (48) |
| | 487 | 313 | (174) | 0 | (174) | (195) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 709 | 719 | 10 | 0 | 10 | 5 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,712 | 1,632 | (80) | 0 | (80) | (29) |
| Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau | 1,436 | 1,401 | (35) | 0 | (35) | 66 |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 | | | | 392 | 392 | 0 |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **5,127** | **4,635** | **(492)** | **392** | **(100)** | **(169)** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth -** arbedion ymlaen llaw yr Adran wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio** - cryn gynnydd yn yr incwm erbyn diwedd y flwyddyn yn y maes Rheolaeth Datblygu o ganlyniad i ddau gais sylweddol ynghyd â gwaith gan swyddogion ar brosiect efo'r Grid Cenedlaethol a chwmni Horizon. Tanwariant ar wasanaethau, cyflenwadau a chludiant.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth** - gorgyflawni incwm a chynnydd nodedig yn yr incwm ar gau ffyrdd, sydd yn rhan o gynlluniau arbedion yr Adran ar gyfer 2019/20 ymlaen, ynghyd â thanwariant staff.

Yn Cludiant Integredig, tanwariant ar gostau staff a rhagori ar incwm yn lleihau effaith y costau ychwanegol yn deillio o ail-dendro teithiau bysus dau weithredwr bysus. Gan fod yr Adran yn ei gyfanrwydd yn tanwario, nid oes bwriad bellach i ddefnyddio'r gronfa a neilltuwyd yn 2017/18 tuag at y costau cynyddol. Mae'r Adran yn y broses o gynnal adolygiad o gludiant cyhoeddus ac wedi comisiynu ymchwil gan y Brifysgol i adolygu'r ddarpariaeth.

**Gwarchod y Cyhoedd** - incwm a grantiau ychwanegol a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Eiddo, Gofalu, Arlwyo a Glanhau** - symudiad ffafriol o £100k o ganlyniad i leihad mewn costau staff gan gynnwys secondiadau a mamolaeth.

Yn unol â'r Rheoliadau Ariannol **argymhellir** cadw at y drefn arferol i ganiatau i'r Adran Amgylchedd gadw (£100k) o'i danwariant, a symud (£392k) sef y swm uwchlaw (£100k), i'w ddefnyddio i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (196) | (259) | (63) | 0 | (63) | (2) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (93) | (92) | 1 | 0 | 1 | (3) |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 433 | 417 | (16) | 0 | (16) | 1 |
| Rheolaeth Adeiladu | 52 | 71 | 19 | 0 | 19 | (7) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **196** | **137** | **(59)** | **0** | **(59)** | **(11)** |



## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - symudiad ffafriol o (£61k) ers yr adolygiad diwethaf, gwaith ar ddiwedd y flwyddyn ar gynlluniau gan Gynghorau eraill a Llywodraeth Cymru wedi arwain at incwm uwch na'r rhagolygon.

**Gwasanaeth Uned Rheoli Risg a Llifogydd** - grantiau ychwanegol am waith systemau draenio wedi rhagori'r targed incwm.

**Rheolaeth Adeiladu** - diffyg incwm yn gyfrifol am y gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn i staff yr uned weithio ar brosiect nad oedd yn denu incwm, sef Adolygiad Ffordd Gwynedd gyda golwg ar wella trefniadau i'r dyfodol.

| **CYFRIFON TERFYNOL 2018/19** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1,817 | 1,741 | (76) | 0 | (76) | (93) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 5,892 | 5,833 | (59) | 0 | (59) | (53) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,851 | 7,790 | (61) | 0 | (61) | (59) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,560** | **15,364** | **(196)** | **0** | **(196)** | **(205)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - tanwariant o (£76k) erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn gyfuniad o dderbyniad incwm ychwanegol gan yr Uned Gyfreithiol, lleihad mewn costau yn y maes Cynllunio Argyfwng a swydd wag. Bydd yr arbedion yma yn rhan o gynlluniau arbedion ar gyfer 2019/20 ymlaen.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - tanwariant un-tro ar swyddi ar draws yr Adran sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant, ynghyd â denu incwm ychwanegol. Derbyniad incwm uwch ers yr Adolygiad Tachwedd sydd yn cynnwys derbyniad grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru am y maes gweinyddu rhyddhad trethi annomestig. Yr arbedion ymlaen llaw wedi eu cynllunio mewn paratoad i allu cyfrannu at gynlluniau arbedion 2019/20 ymlaen.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - y tanwariant yn gyfuniad o arbedion staffio un-tro o ganlyniad i swyddi gwag, ynghyd â llwyddiant yr Adran i ddenu incwm allanol uwchlaw lefel y gyllideb yn y maes Iechyd Galwedigaethol a Chyfieithu, gyda'r bwriad o'u defnyddio fel rhan o gynlluniau arbedion o 2019/20 ymlaen.

**CYFRIFON TERFYNOL 2018/19**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2018/19 | Sefyllfa Terfynol 2018/19 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2018/19** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2018/19** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Diwedd Tachwedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (24) | | (24) | 0 |
| Premiwm Treth Cyngor | * | * | (19) | 19 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (265) | | (265) | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | (139) | | (139) | 8 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (551) | 551 | 0 | 0 |
| Cynnal a Chadw Corfforaethol | * | * | (738) | 738 | 0 | 0 |
| Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau | | | (937) | | (937) | 0 |
| Eraill | * | * | (651) | | (651) | (55) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 - *i falansau cyffredinol* | | | | 173 | 173 | 0 |
| | | | | **1,481** | | |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2018/19 - *i gyllido gorwariant* | | | | 1,843 | 1,843 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(3,324)** | **3,324** | **0** | **(47)** |

## Corfforaethol

| |
|---|
| **Treth y Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor** - Sefyllfa ffafriol o dreth ychwanegol o (£24k) ar Dreth y Cyngor a (£19k) Premiwm Treth y Cyngor. Cynnydd o dros 60% eleni yn nifer yr eiddo mae Swyddfa'r Prisiwr wedi caniatau i drosglwyddo o'r rhestr Treth y Cyngor i Drethi Annomestig, sef 453 o eiddo (282 yn 2017/18, a 199 yn 2016/17). Byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Prisiwr at y sefyllfa anfoddhaol yma.<br><br>**Gostyngiadau Treth y Cyngor** - tanwariant o (£265k) gan fod niferoedd ceisiadau y cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (budd-daliadau) yn gyffredinol ar ei lefel isaf o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ar hyd Gogledd a Chanolbarth Cymru.<br><br>**Derbyniad Llog Net** - newidiadau diweddar yn y maes rheolaeth trysorlys yn galluogi Cynghorau Cymru i fuddsoddi mewn eiddo buddsoddi sydd wedi arwain at ddychweliadau uwch.<br><br>**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol eleni sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Yn dilyn sefydlu Cynllun Rheoli Asedau 2019/20 ymlaen yn ddiweddar, awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i'w ddefnyddio i gynorthwyo gyda ariannu'r rhaglen gyfalaf.<br><br>**Cynnal a Chadw Corfforaethol** - gan fod y Cyngor yn disgwyl penderfyniad am grant gan Lywodraeth Cymru sydd i'w wario ar nifer o safleoedd ysgolion, mae rhan o gyllideb cynnal a chadw eleni wedi ei neilltuo fel arian cyfatebol i ddenu'r grant. Awgrymir y dylid trosglwyddo'r arian i gronfa benodol i'r pwrpas.<br><br>**Cyllidebau a ddychwelwyd gan Adrannau** - yn dilyn derbyniad grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu y cynnydd yn nhâl athrawon ar ddiwedd Rhagfyr bu modd rhyddhau cyllideb o (£617k), ac ni fu'r galw mor ddwys yn sgil newidiadau awto-gorfestriad pensiwn<br><br>**Eraill** - y pwysau ar nifer o benawdau'r gyllideb ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd ac felly yn tanwario. |
| **Argymhellir** fod (£19k) cysylltiedig â'r premiwm Treth y Cyngor yn cael ei neilltuo i gronfa benodol i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai, (£551k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei drosglwyddo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, (£738k) ar gynnal a chadw i'w drosglwyddo i gronfa cynnal a chadw. Defnyddio (£1,843k) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol i gynorthwyo'r adrannau sydd wedi gorwario yn 2018/19, gyda gweddill y tanwariant sef (£173k) i fynd i falansau cyffredinol y Cyngor. |

## Cynaeafu Cronfeydd a Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd a darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol o'r cronfeydd a darpariaethau isod:

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Tanwariant y Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 60,834 |
| Tanwariant Cefnogaeth Gorfforaethol (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 67,079 |
| Grantiau Refeniw Hanesyddol Amrywiol (dim ymrwymiad ar eu cyfer) | 267,952 |
| Tanwariant yr Adran Cyllid (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 65,785 |
| Adolygiad Tâl (wedi cwblhau) | 44,130 |
| Tanwariant yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (cynaeafu uwchlaw trothwy penodol) | 81,696 |
| Ymrwymiad Potensial Contractau (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 163,974 |
| Ar gyfer Incwm Annigonol (dim ymrwymiad ar ei gyfer) | 80,860 |
| Cronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol (ei drosglwyddo i wireddu blaenoriaethau corfforaethol) | 3,098,718 |
| **Cyfanswm** | **3,931,028** |

| **Darpariaeth** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Hawliadau Trydydd Parti (wedi cwblhau) | 68,972 |
| **Cyfanswm** | **68,972** |

gan eu trosglwyddo i:

| **Cronfa / Balansau Cyffredinol** | **Swm i'w ychwanegu £** |
|---|---:|
| Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 3,000,000 |
| Balansau Cyffredinol | 1,000,000 |
| **Cyfanswm** | **4,000,000** |

Am gyfnod o flwyddyn trosglwyddo'r canlynol i bontio'r ffynhonnell ariannu :

| **Cronfa** | **Swm i'w ryddhau £** |
|---|---:|
| Cronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol | 262,100 |
| **Cyfanswm** | **262,100** |

gan ei drosglwyddo i'r gronfa isod:

| **Cronfa** | **Swm i'w ychwanegu £** |
|---|---:|
| Ymrwymiadau yn Berthnasol i'r Gronfa Bensiwn | 262,100 |
| **Cyfanswm** | **262,100** |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
21 Mai 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2018/19 –
Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £7,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £1,739,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £71,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £158,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £184,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r broses cau cyfrifon 2018/19. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 5:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £53.430m am y 3 blynedd 2018/19 – 2020/21.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £2.159m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2018/19 i 2019/20

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Llwyddodd y Cyngor i wario dros £22.8m yn 2018/19 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £12.5m (55%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Yn ychwanegol i'r £4.4m adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2018/19 mae £8.3m pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o

2018/19 i 2019/20, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2018/19 i 2020/21

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 3,481 | 9,201 | 3,624 | 16,306 | 7 |
| Amgylchedd | 4,340 | 4,839 | 43 | 9,222 | (706) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 6 | 118 | - | 124 | - |
| Cyllid | 1,049 | 285 | - | 1,334 | 308 |
| Economi a Chymuned | 656 | 477 | - | 1,133 | 47 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,052 | 1,285 | - | 5,337 | 436 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 780 | 1,177 | 524 | 2,481 | 11 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 93 | | - | 93 | (14) |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,971 | 4,515 | 1,893 | 13,379 | 281 |
| Ymgynghoriaeth | 1,380 | 452 | 45 | 1,877 | (53) |
| Corfforaethol | - | 2,144 | - | 2,144 | 1,842 |
| **CYFANSWM** | **22,808** | **24,493** | **6,129** | **53,430** | **2,159** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £2.159m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,144 | - | - | 4,144 | - |
| Benthyca Arall | 3,774 | 1,747 | 777 | 6,298 | 7 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 10,538 | 9,714 | 525 | 20,777 | 1,739 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 162 | 349 | 750 | 1,261 | 71 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,947 | 176 | - | 2,123 | 158 |
| Cronfa Cyfalaf | - | 2,353 | - | 2,353 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 2,243 | 10,154 | 4,077 | 16,474 | 184 |
| **CYFANSWM** | **22,808** | **24,493** | **6,129** | **53,430** | **2,159** |

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol, ymysg addasiadau eraill (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,842k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- £347k Grant i Ddylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis
- £47k Grant Amddiffyn yr Arfordir Borth y Gest
- £40k Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynlluniau Adnewyddu a Mynediad Bangor
- £327k Grant o'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), maes Oedolion
- £98k Grant Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) ar gyfer datblygu tai gwag
- £50k Grant Rhaglen Tai Arloesol – podiau hyblyg goddefol

## 5. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (para. 4 uchod).**

## 6. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2018/19 – 2020/21.

## 7. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 8. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Gyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2018/19, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol cyn diwedd mis Mai.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiadau A a B

----------------------------

**Prif Newididau Fesul Ffynhonnell Ariannu**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | 2018/19<br><br>£'000 | 2019/20-2020/21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Dylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis *(Adran Ymgynghoriaeth)*. | 347 | (387) |
| • Grant Amddiffyn yr Arfordir Borth y Gest *(Adran Ymgynghoriaeth)*. | 47 | |
| • Grant Dechrau'n Deg - tanwario *(Adran Plant a Theuluoedd)*. | (22) | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*. | 327 | |
| • Cynlluniau Grant Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP) - grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu tai gwag yn ardal Arfon *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*. | 98 | |
| • Grant Rhaglen Tai Arloesol – podiau hyblyg goddefol *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*. | 50 | |
| • Lleihad Grant gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys A496 Llanbedr; Lôn Las Peris; A499 i Trefor *(Adran Amgylchedd)*. | (703) | |
| • Grant tuag at Gynlluniau Gwledig gan gynnwys Mynediad i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn *(Adran Amgylchedd)*. | 30 | |
| • Grant i ariannu Prosiect Tir a Môr Llŷn *(Adran Amgylchedd)*. | 53 | |
| • Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) i ariannu Cynlluniau Adnewyddu a Mynediad Bangor *(Adran Economi a Chymuned)*. | 40 | |

| | | |
|---|---|---|
| • Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion *(Adran Addysg ac Adran Amgylchedd)*. | 1,842 | |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Uwchraddio Depos Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*. | 76 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Dylunio a Datblygu Cynllun Atal Llifogydd yn Llanberis *(Adran Ymgynghoriaeth)* - cyfraniadau Adrannau eraill i'r cynllun Adran Ymgynghoriaeth | 47 | (68) |
| • Gweinyddwyr (Offer) Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid)*. | 250 | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | (71) | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer Gwastraff *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*. | 225 | |
| • Prosiect VOIP – ffonau trwy'r we *(Adran Cyllid)*. | 57 | |
| • Nifer o fân gynlluniau. | (98) | |

---------------------------

## Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (253) | 253 |
| Cynlluniau Grantiau a Benthyciadau Tai *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (975) | 975 |
| Ysgol Gydol Oes Y Berwyn *(Adran Addysg)* | (382) | 382 |
| Cynlluniau Eraill Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (582) | 582 |
| Cynlluniau sefydliadau Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (180) | 180 |
| Ail-wynebu meysydd parcio *(Adran Amgylchedd)* | (261) | 261 |
| Cynlluniau Ffyrdd Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (1,286) | 1,286 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Adran Amgylchedd)* | (2,313) | 2,313 |
| Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor *(Uned Eiddo , Adran Amgylchedd)* | (2,990) | 2,990 |
| Amrywiol gynlluniau megis Adnewyddu Ffensys Diogelwch, Dŵr ar y Ffyrdd, Pibellau Dŵr, Toiledau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | (297) | 297 |
| Cynllun Safle Sipsiwn, Llandygai *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (310) | 310 |
| Cynllun Adnewyddu Cyfrifiaduron y Cyngor *(Adran Cyllid)* | (200) | 200 |
| Nifer o amrywiol Gynlluniau megis Digido Safleoedd, Mesurau Diogelwch Parc Padarn (*Adran Economi a Chymuned)* | (229) | 229 |
| Nifer o amrywiol Gynlluniau megis Mynediad i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, Gwelliannau Trefol, TG systemau Gwaith Stryd *(Adran Amgylchedd)* | (192) | 192 |
| Grant Cynnal a Chadw Ysgolion (disodli ariannu yn 18/19, sy'n llithro swm i 19/20) | (1,842) | 1,842 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

---------------------------

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **21 Mai 2019** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:<br>Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Yn Strategaeth Ariannol y Cyngor am y flwyddyn 2018/19, roedd gwerth £2,454,740 o arbedion wedi eu cynllunio.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau, sy'n cael eu cyflwyno yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet, yn manylu ar gynnydd y cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel y mae'r sefyllfa ar y pryd. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

Adroddir yma ar sefyllfa gwireddu'r arbedion hyd at 31 Mawrth 2019.

## 2. CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 – 2017/18

2.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion oedd wedi ei osod iddynt o 2015/16 – 2017/18, cyfanswm o dros £24m. Mae'n galonogol i mi allu adrodd bod £23m, neu 96%, o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu, a dim ond ychydig o lithriad gyda'r gweddill.

2.2 Mae'r llithriad yma yn bennaf ar gynlluniau 2017/18 gyda rhai o'r cynlluniau wedi llithro. Mae cynnydd wedi ei wneud yn ddiweddar gyda rhai o'r cynlluniau ond mae'r her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau.

2.3 Mae dau gynllun gan yr Adran Addysg yn destun pryder sef *Lleihau amser a/neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim* a *Chynnyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50.* Nid yw'r arbedion yn cael eu gwireddu ar y lefel yr oedd yr Adran wedi ei ragweld, ac felly ceir gorwariant eleni. £119,550 yw cyfanswm targed y ddau gynllun yn 2017/18. Mae'r Aelod Cabinet Cyllid yn awyddus i dderbyn cynllun ymateb erbyn y cyfarfod Cabinet perthnasol nesaf.

**3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2018/19**

3.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2018/19. O'r 30 o gynlluniau, mae gwerth 73% wedi eu gwireddu. Mae 1 cynllun ar drac i gyflawni'n amserol, gyda 7 cynllun yn llithro.

3.2 Fel adroddwyd i'r Cabinet 22 Ionawr 2019, un o'r cynlluniau yw 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, sydd yn gynllun arbedion o £250,280. Mae'r cynllun wedi bod yn destun adolygiad ar y cyd rhwng yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Cyllid a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth, gan ail ymweld â thybiaethau'r model 'Dechrau i'r Diwedd' gwreiddiol. Gwelwyd fod niferoedd y nosweithiau plant mewn lleoliadau preswyl wedi lleihau ond fod newid yn y proffil a chymhlethdod yr achosion, ac felly yn cael effaith ar gyfartaledd cost lleoliadau. Gwelwyd hefyd leihad yng nghyfraniadau gan Iechyd.

3.3 Mae'r ddau gynllun yr Adran Addysg a nodir yn pwynt 2.3 gyda targed arbedion o £85,450 yn 2018/19 hefyd.

3.4 Derbyniodd yr Adran Economi a Chymuned gymeradwyaeth y Cabinet 16 Hydref 2018 i lithro £156,500 o'r arbedion gan nad oedd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Gwmni Byw'n Iach Cyf tan 1 Ebrill 2019, felly i 2019/20.

3.5 Yn gyffredinol, mae'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 yn dderbyniol, ond mae arwyddion fod rhai trafferthion cyflawni yn cael eu hamlygu. Gan ein bod yn ceisio effeithio ar drigolion Gwynedd cyn lleied a phosib drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd, mae'n llawer anoddach na torri gwasanaethau.

**4. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2019/20 YMLAEN**

4.1 Er gwybodaeth rhestrir arbedion adrannol newydd 2019/20 ymlaen yn **Atodiad 3**. Fydd y cynlluniau unigol yn cael eu monitor yn ystod y flwyddyn, ond yn gyn amserol i adrodd ar hyn o bryd.

**5. CASGLIAD**

5.1 Er bod rhai adrannau wedi gwireddu eu holl gynlluniau arbedion, mae'n anorfod bod gwireddu bron i £27m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mae angen mwy o amser i gynllunio a gweithredu'n briodol ar rai cynlluniau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud i wireddu cynlluniau arbedion y cyfnod hwn ac yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i geisio gwireddu y cynlluniau sydd wedi llithro, a bydd yr holl Aelodau Cabinet yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gan weithredu fel bo angen er sicrhau'r nôd.

5.2 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad derbyniol iawn a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau ynglŷn â phriodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 – 2017/18 fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2018/19 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2019/20 ymlaen fesul Adran

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion** £ | **Cynlluniau wedi eu gwireddu** £ | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro** £ | *nifer* | **Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni** £ | *nifer* | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 685,860 | 537,629 | 28,681 | *1* | 119,550 | *2* | Mae bid wedi ei gyflwyno ar gyfer adnoddau ychwanegol i gyflymu'r gwaith ar gynllun *Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau* , ond yn y cyfamser mae'r Adran yn pontio'r diffyg o (£28,681). Nid yw'r cynllun i *Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd* wedi ei wireddu, gyda gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O ran y cynllun *Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50* , mae'r sefyllfa diweddaraf yn nodi bod yna ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn gan fod niferoedd sy'n archebu cinio wedi gostwng ers i'r pris godi ym Medi 2017, ac felly nid yw'r cynllun yn gwireddu'r arbedion disgwyliedig. |
| Ysgolion | 4,037,000 | 3,738,010 | 298,990 | *1* | - | | Mae arbedion o £298,990 o arbedion 2017/18 wedi eu pontio am ddwy flynedd i'r ysgolion uwchradd gyda'r arbedion i'w gwireddu yn 2019/20. |
| Amgylchedd | 2,179,353 | 2,179,353 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 1,659,838 | 1,659,838 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 960,826 | 960,826 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,085,602 | 2,085,602 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,934,141 | 4,473,401 | 460,740 | *7* | - | | Mae amrediad o gynlluniau 2017/18 wedi llithro ond rhagwelir gwireddu yn llawn. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2017/18 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu** | **Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro** | | **Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni** | | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£ -** | ***nifer*** | **£ -** | ***nifer*** | |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,987,318 | 1,987,318 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,872,550 | 4,839,550 | 33,000 | *1* | - | | Mae £33k o gynllun *Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir* yn llithro, gyda'r gwasanaeth yn edrych ar ail-strwythuro a chynllun Teledu Cylch Cyfyng yn cyfarch y gwahaniaeth. |
| Ymgynghoriaeth | 387,000 | 387,000 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 165,270 | 165,270 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **23,954,758** | **23,013,797** | **821,411** | ***10*** | **119,550** | ***2*** | |
| Trawsadrannol | 224,220 | 224,220 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **24,178,978** | **23,238,017** | **821,411** | ***10*** | **119,550** | ***2*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2017/18 wedi eu gwireddu.** |

21/05/2019

**ATODIAD 2**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2018/19 £ | nifer | Cynlluniau wedi eu gwireddu £ | nifer | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ | nifer | Cynlluniau sydd yn llithro £ | nifer | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 521,450 | *3* | 436,000 | *1* | - | | 85,450 | *2* | Nid yw'r cynllun i *Leihau amser a / neu godi ffi am yr elfen gwarchod o fewn y cynllun brecwast am ddim i blant ysgolion cynradd* wedi ei wireddu, gyda gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O ran y cynllun *Cynyddu pris prydau ysgolion cynradd o £2.30 i £2.50* , mae'r sefyllfa diweddaraf yn nodi bod yna ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn gan fod niferoedd sy'n archebu cinio wedi gostwng ers i'r pris godi ym Medi 2017, ac felly nid yw'r cynllun yn gwireddu'r arbedion disgwyliedig. |
| Ysgolion | - | | - | | - | | - | | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Amgylchedd | 154,970 | *6* | 154,970 | *6* | - | | - | | Holl gynlluniau wedi eu gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 47,340 | *2* | 47,340 | *2* | - | | - | | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Cyllid | 66,430 | *2* | 66,430 | *2* | - | | - | | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 308,830 | *4* | 152,330 | *3* | - | | 156,500 | *1* | Mae'r cynlluniau bellach wedi eu gwireddu, ond bydd llithriad rhannol i gynllun *Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol* gan nad oedd y ddarpariaeth cyfleusterau hamdden yn trosglwyddo i Cwmni Byw'n Iach Cyf tan 1 Ebrill 2019, felly llithriad i 2019/20. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 645,000 | *6* | 575,000 | *4* | - | | 70,000 | *2* | Bu oediad yn gwireddu cynlluniau *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* gwerth £30k a'r cynllun *Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl* gwerth £40k, ond yn symud yn eu blaen. |

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2018/19 FESUL ADRAN

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2018/19** £ | *nifer* | **Cynlluniau wedi eu gwireddu** £ | *nifer* | **Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol** £ | *nifer* | **Cynlluniau sydd yn llithro** £ | *nifer* | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 314,480 | *2* | 64,200 | *1* | - | | 250,280 | *1* | Mae'r cynllun *Dechrau i'r Diwedd* wedi bod yn destun adolygiad diweddar, sydd wedi cadarnhau fod niferoedd y nosweithiau plant mewn gofal wedi lleihau yn ystod y cyfnod, ond fod y math o leoliad preswyl wedi newid ac felly yn cael effaith ar gost lleoliadau. Bu hefyd leihad yng nghyfraniadau gan Iechyd. Bydd angen i'r Adran ystyried newid trywydd canolbwyntio er mwyn ceisio datrysiad. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 171,700 | *2* | 86,700 | *1* | 85,000 | *1* | - | | Mae cynllun arbedion *Trefniadau Fflyd (Adolygiad Edge)* gwerth £85,000 sydd yn cael ei arwain gan yr Adran Priffyrdd, eto i dderbyn cymeradwyaeth gan y Cabinet. |
| Ymgynghoriaeth | - | | - | | - | | - | | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2018/19. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 13,800 | *1* | - | | - | | 13,800 | *1* | Mae llithriad ar y cynllun Arbedion yng nghyllideb y Crwner gwerth £13,800 gan ei fod yn seiliedig ar ragamcaniad. |
| **Is-gyfanswm** | **2,244,000** | ***28*** | **1,582,970** | ***20*** | **85,000** | ***1*** | **576,030** | ***7*** | |
| Trawsadrannol | 210,740 | *2* | 210,740 | *2* | - | | - | | Y ddau gynllun wedi eu gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **2,454,740** | ***30*** | **1,793,710** | ***22*** | **85,000** | ***1*** | **576,030** | ***7*** | **Yn nhermau ariannol (£), mae 73% o gynlluniau'r flwyddyn wedi eu gwireddu a 4% ar drac i gyflawni'n amserol.** |

21/05/2019

**ATODIAD 3**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2019/20 YMLAEN FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2019/20 ymlaen | | Proffil | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | *nifer* | 2019/20 £ | 2020/21 £ | 2021/22 £ | 2022/23 £ |
| Addysg | 84,530 | *3* | 66,970 | 17,560 | - | - |
| Amgylchedd | 560,000 | *20* | 229,380 | 221,870 | 96,250 | 12,500 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 788,700 | *18* | 375,450 | 195,500 | 117,750 | 100,000 |
| Cyllid | 795,450 | *22* | 558,650 | 111,800 | 100,000 | 25,000 |
| Economi a Chymuned | 553,000 | *12* | 173,000 | 175,000 | 166,250 | 38,750 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,772,380 | *12* | 345,000 | 953,250 | 274,130 | 200,000 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 94,590 | *8* | 63,170 | 8,250 | 23,170 | - |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,380,900 | *19* | 210,000 | 372,150 | 611,250 | 187,500 |
| Ymgynghoriaeth | 186,000 | *7* | 126,500 | 59,500 | - | - |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 202,370 | *7* | 183,310 | 19,060 | - | - |
| **CYFANSWM** | **6,417,920** | ***128*** | **2,331,430** | **2,133,940** | **1,388,800** | **563,750** |